**Rhif: WG53045**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 – crynodeb o ymatebion

20 Tachwedd 2025

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-703-3

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 24 Mehefin a 2 Medi 2025 ar newidiadau posibl i nifer o Reoliadau mewn perthynas â chyllido ysgolion, datganiadau cyllideb ysgolion a datganiadau alldro. Nod y newidiadau yw darparu mwy o hyblygrwydd fel y gall awdurdodau lleol roi cymorth gwell i ysgolion reoli eu cyllidebau a sicrhau bod y system yn fwy tryloyw, cymaradwy a chyson, fel y gellir cael trafodaethau ar sail gwybodaeth ynghylch cyllidebau ar bob lefel.

Casglodd yr ymgynghoriad farn rhanddeiliaid a fydd yn llywio Rheoliadau newydd, sy'n dirymu ac yn ail-wneud â diwygiadau Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 yn un gyfres o Reoliadau.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010

Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003

Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Seilwaith Addysg, Llywodraethu a Chyllid
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: schoolfundingmailbox@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 | LLYW.CYMRU

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3
**Beth yw'r sefyllfa bresennol?** 5
**Beth oedd y cynnig dros newid?** 6
**Crynodeb o'r ymatebion** 7
**Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** 8
Cyllidebau ysgolion ffederal 8
    Cwestiwn 1 8
Cyfrifo nifer y disgyblion 8
    Cwestiwn 2 8
Ffactorau amddifadedd i'w defnyddio mewn fformiwlâu 9
    Cwestiwn 3 9
    Cwestiwn 4 11
Balansau ysgolion 12
    Cwestiwn 5 12
    Cwestiwn 6 13
    Cwestiwn 7 14
    Cwestiwn 8 15
Dirprwyo 15
    Cwestiwn 9 15
Cyhoeddi 16
    Cwestiwn 10 16
    Cwestiwn 11 17
Rheoliadau Cyllido Ysgolion - Atodlenni 18
    Cwestiwn 12 18
    Cwestiwn 13 19
    Cwestiwn 14 19
    Cwestiwn 15 20
Cwestiwn 16 20
Datganiadau cyllideb 21
    Cwestiwn 17 21
    Cwestiwn 18 21
    Cwestiwn 19 22
    Cwestiwn 20 23
    Cwestiwn 21 23
Effeithiau 24
    Cwestiwn 22 24
    Cwestiwn 23 24
Y Gymraeg 25
    Cwestiwn 24 25
    Cwestiwn 25 25

**Y Camau Nesaf** **27**
**Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** **28**

## Cyflwyniad

Ceisiodd yr ymgynghoriad farn am newidiadau arfaethedig a fydd yn llywio Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 newydd ("Rheoliadau arfaethedig 2026"), sy'n dirymu ac yn ail-wneud â diwygiadau Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2026, Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003. Nod y diwygiadau yw sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu mewn ffordd deg a thryloyw, gan alluogi ysgolion i reoli eu harian yn effeithiol a chyrraedd safonau addysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr argyfwng costau byw sy'n rhoi cryn bwysau ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Bydd y diwygiadau hefyd yn sicrhau y caiff polisïau a deddfwriaeth gyfredol eu hadlewyrchu ac yn diweddaru terminoleg yn briodol, er enghraifft diweddariadau sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn darparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac yn sefydlu'r fframwaith ariannol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae awdurdodau lleol yn gosod cyllidebau ar gyfer eu hysgolion, a gaiff eu pennu gan fformiwla gyllido leol. Cânt eu gwneud o dan adrannau 45A, 45AC, 47, 48, 49 a 138(7) ac (8) a pharagraffau 1(7) a 2B o Atodlen 14 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol bennu nifer o gyllidebau. Yn gyntaf, mae angen i awdurdod lleol bennu ei Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys eitemau o wariant y bydd yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr eitemau sy'n ffurfio'r gyllideb hon eu nodi yn Atodlen 1 i Reoliadau 2010.

Ar wahân i hynny, mae'n rhaid i awdurdod lleol bennu ei Gyllideb Ysgolion. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys eitemau o wariant sy'n ymwneud â darparu a rhedeg ysgolion. Caiff yr eitemau sy'n ffurfio'r gyllideb hon eu nodi yn rheoliad 6 o Reoliadau 2010.

Ar ôl ffurfio'r Gyllideb Ysgolion, rhaid i'r awdurdod lleol wedyn ddidynnu'r eitemau o wariant a nodir yn Atodlen 2 i Reoliadau 2010 ohoni. Y swm sy'n weddill ar ôl gwneud y didyniadau hynny yw'r Gyllideb Ysgolion Unigol ac mae'n cynrychioli'r gyllideb a fydd, yn ei thro, yn cael ei dyrannu i bob ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

Yn olaf, rhaid i'r awdurdod lleol ddyrannu'r Gyllideb Ysgolion Unigol gyfan i Gyfrannau Cyllideb Ysgolion, sef y gyllideb wirioneddol y bydd pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn ei chael ganddo.

Mae Rheoliadau 2010 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y broses o bennu'r gyllideb y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgymryd â hi, ac amserlen y broses honno.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 (rheoliad 23) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, pan fydd yn paratoi ei fformiwla gyllido, sicrhau bod 70% o'i Gyllideb Ysgolion Unigol (y gyllideb y bydd yn ei dyrannu i'r ysgolion a gynhelir ganddo) yn cael ei ddyrannu ar y sail y bydd 70% ar gyfer cyllid a arweinir gan ddisgyblion. Mae hynny'n golygu y caiff y 70% ei ddyrannu i ysgolion unigol ar sail un maen prawf neu fwy a nodwyd yn Rheoliadau 2010, sef nifer y disgyblion, ffactorau

eraill sy'n ymwneud â nifer y disgyblion, lleoedd meithrin ac anghenion addysgol arbennig disgyblion. Bydd y cyfeiriad at anghenion addysgol arbennig bellach yn cael ei ddehongli fel un sy'n cynnwys cyfeiriad at anghenion dysgu ychwanegol hefyd. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i rannu'r 30% sy'n weddill fel y gallant ystyried amgylchiadau ysgolion unigol, megis maint a chyflwr adeiladau ysgolion.

Yn ogystal, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gynnal cynllun ariannol yn amlinellu'r gydberthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'i ysgolion. Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfrifoldebau penaethiaid a chyrff llywodraethu mewn perthynas â rheoli'r gyllideb ac yn gosod amodau ar gyfer dirprwyo ariannol.

Mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 (a wnaed o dan adrannau 52 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) a Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 (a wnaed o dan adrannau 52, 138 a 148 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) yn nodi ffurf datganiadau cyllideb ac alldro a ddarperir gan yr awdurdod lleol, ynghyd â'r wybodaeth y dylent ei chynnwys a sut y dylid eu cyhoeddi.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Caiff penderfyniadau ar lefel y cyllid sydd ar gael i ysgolion a gwasanaethau eraill eu gwneud gan bob awdurdod lleol wrth bennu ei gyllideb gyffredinol a'i dreth gyngor.

Daeth Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 i rym ar 1 Medi 2010 ar gyfer blwyddyn ariannol 2011 i 2012 a phob blwyddyn ddilynol. Cawsant eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Gwnaeth Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 gyfuno a disodli'r Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Cyllidebau Addysg nad ydynt ar gyfer Ysgolion, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003.
- Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004.
- Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r cyllidebau canlynol:

- Mae'r **Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion** (sef y Gyllideb AALl yn flaenorol) yn ymwneud â swyddogaethau canolog awdurdodau lleol ac yn cynnwys costau darpariaeth o natur arbenigol, gwelliannau ysgolion, mynediad at addysg, addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion a rheolaeth strategol.
- Mae'r **Gyllideb Ysgolion** yn cwmpasu gwariant sydd â'r nod uniongyrchol o gefnogi ysgolion a gall yr awdurdod lleol gadw cyllid ar ei gyfer yn ganolog, megis gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), prydau ysgol a llaeth. Caiff swm y gwariant a gedwir yn ganolog ei ddidynnu o'r Gyllideb Ysgolion a'r Gyllideb Ysgolion Unigol yw'r swm sy'n weddill.
- Caiff **y Gyllideb Ysgolion Unigol** ei rhannu rhwng yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a chaiff ei dirprwyo i ysgolion.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddyrannu a phennu cyllidebau ysgolion a hysbysu ysgolion a Gweinidogion Cymru o hyn. Maent yn nodi dosbarthiadau neu ddisgrifiad o wariant at ddibenion y cyllidebau a nodir yn y Rheoliadau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 70% o Gyllideb Ysgolion Unigol awdurdod lleol fod yn gyllid a arweinir gan ddisgyblion ac yn amlinellu'r hyn sy'n ofynnol o ran cynllun ariannol awdurdod lleol, y trefniadau cyhoeddi a chamau i gymeradwyo diwygiadau.

Mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 yn rhagnodi ffurf datganiadau cyllideb a ddarperir gan yr awdurdod lleol, ynghyd â'r wybodaeth y dylent ei chynnwys a sut y dylid eu cyhoeddi. Mae'r datganiadau hyn ar gyfer gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod .

Mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 yn rhagnodi ffurf datganiadau alldro a ddarperir gan yr awdurdod lleol, ynghyd â'r wybodaeth y dylent ei chynnwys a sut y dylid eu cyhoeddi. Mae'r datganiadau hyn ar gyfer gwariant gwirioneddol a chronfeydd wrth gefn.

## Beth oedd y cynnig dros newid?

Ers sawl blwyddyn, mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch lefel gwariant ysgolion fesul disgybl, gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol a rhwng ysgolion ac a yw lefelau cyllido yn ddigonol i ddiwallu anghenion disgyblion.

O ganlyniad i hyn, lansiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i gyllido ysgolion yng Nghymru. Roedd adroddiad Cyllido Ysgolion yng Nghymru y Pwyllgor yn cynnwys 21 o argymhellion, gan gynnwys argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, comisiynodd Llywodraeth Cymru Luke Sibieta, sef ymgynghorydd annibynnol, i ymgymryd â dadansoddiad o'r system cyllido ysgolion a gwneud argymhellion er mwyn gwella. Roedd yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru yn cynnwys 12 o argymhellion. Adroddodd ar y cymhlethdodau niferus o ran cyllido ysgolion ledled Cymru, gan argymell fod angen i'n prosesau cyllido fod yn fwy tryloyw a chyson.

Yn ddiweddar, aeth Llywodraeth Cymru ati i adolygu fformiwlâu cyllido ysgolion awdurdodau lleol. Argymhellodd yr Adolygiad o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion y dylid diwygio Rheoliadau 2010.

Rydym wedi ystyried y dystiolaeth yn yr adroddiadau uchod a bwriedir i'r diwygiadau arfaethedig fynd i'r afael â nifer o'r argymhellion.

Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn arwain at newid i gyllideb addysg gyffredinol yr awdurdod lleol.

Nod y newidiadau arfaethedig yw sicrhau yr ymdrinnir â chyllid ysgolion mewn ffordd fwy tryloyw, cyson a theg ar draws awdurdodau lleol, gan ar yr un pryd gynnal egwyddorion prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd lleol.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Mehefin a 2 Medi 2025. Cawsom gyfanswm o 40 o ymatebion, o groestoriad o randdeiliaid addysg, gan gynnwys awdurdodau lleol, undebau llafur, ysgolion ac awdurdodau esgobaethol. Roedd 23 o'r ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw.

Ceir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am ymateb ‘cytuno’ neu ‘anghytuno’, ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Fodd bynnag, ystyriwyd pob ymateb a atebodd o leiaf un cwestiwn neu a ddarparodd sylwadau ar y cynigion. Mae'r niferoedd a ddangosir ym mhob un o'r tablau isod yn seiliedig ar y nifer a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwnnw. Ni wnaeth rhai ymatebion nodi a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno ac felly ni chânt eu cyfrif yn y cyfansymiau, ond caiff y sylwadau eu cynnwys o hyd. Nid yw'r crynodeb hwn yn gofnod hollgynhwysfawr o'r holl sylwadau a wnaed, ac os yw mater penodol wedi cael ei hepgor, nid yw'n golygu ei fod wedi cael ei anwybyddu neu ei fod yn llai pwysig.

Yn y crynodeb hwn, rydym wedi grwpio'r dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr un ffordd ag yr ymddangosodd y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori.

# Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cyllidebau ysgolion ffederal

**Cwestiwn 1**
A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gyllidebau ysgolion ffederal gael eu cyfuno er mwyn creu un gyllideb ar gyfer y ffederasiwn cyfan?

| Cytuno | 27 | Anghytuno | 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, nododd nifer ohonynt y dylai hyn fod ar yr amod bod uno cyllidebau yn ddewisol/nad yw'n orfodol. Mynegodd llawer safbwyntiau y byddai'r newid yn gwella prosesau cynllunio strategol, rhannu adnoddau, rheoli ariannol, symudiadau staff ac yn lleihau biwrocratiaeth a gwaith gweinyddol.

Ymatebodd rhai gan nodi y byddai angen canllawiau clir, a gofynnodd un ymatebydd yn benodol am ganllawiau ynghylch rheoli'r broses o ddaduno.

Nododd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan ysgolion gyllideb ysgol unigol o hyd o fewn fformiwla'r awdurdod lleol, cyn uno'r cyllidebau ar gyfer ffederasiwn.

Cododd dau ymatebydd bryderon ynglŷn ag atebolrwydd ariannol a phan fydd gan ysgolion sefyllfaoedd cyllidebol gwahanol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig i ganiatáu i gyllidebau ysgolion ffederal gael eu cyfuno er mwyn creu un gyllideb ar gyfer y ffederasiwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pryderon a godwyd ond mae o'r farn yr ymdrinnir â hyn drwy sicrhau mai dim ond pan fydd pob ysgol yn y ffederasiwn yn cytuno y caiff cyllidebau eu huno.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

## Cyfrifo nifer y disgyblion

**Cwestiwn 2**
A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio data o'r CYBLD mis Ionawr diweddaraf i gyfrifo nifer y disgyblion mewn penderfyniadau cychwynnol am gyfrannau o'r gyllideb?

| Cytuno | 24 | Anghytuno | 9 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**

Nododd llawer y byddai ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddefnyddio'r un setiau sefydlog o ddata i gyfrifo nifer y disgyblion yn helpu i wella cysondeb, rhagweladwyedd a thegwch.

Mynegodd rhai bryderon ynglŷn â'r set ddata benodol, gan nodi y byddai'r CYBLD diweddaraf a ddilyswyd yn hen erbyn y byddai ei angen i bennu cyllidebau ac na fyddai'n adlewyrchu nifer y disgyblion ym mlwyddyn y gyllideb yn gywir; nododd un y byddai hyn y tu hwnt i setiau data a ganiateir o dan y Rheoliadau presennol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod defnyddio data CYBLD mis Ionawr hefyd yn peri risgiau am nad yw'r data wedi'u dilysu ac mae'n bosibl na fyddent ar gael mewn pryd, gan arwain at risg o oedi dyraniadau cyllidebol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio un set ddata sefydlog, gan gyfeirio at effeithiau posibl ar ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn amrywio yn ystod y flwyddyn, gan gredu bod ysgolion bach yn arbennig o agored i hyn. Nodwyd y dylai dyraniadau fod yn ymatebol i alw gwirioneddol.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, gwnaeth rhai hynny gyda'r ddarpariaeth y dylai fod hyblygrwydd i addasu yn ystod y flwyddyn hefyd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod defnyddio amcanestyniadau a hyblygrwydd o fewn y cyfrif yn sicrhau y gall cyllidebau ymateb yn well i alw ac yn decach i ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio data o'r CYBLD mis Ionawr diweddaraf i gyfrifo nifer y disgyblion mewn penderfyniadau cychwynnol am gyfrannau o'r gyllideb. Gan ystyried yr adborth, ni chaiff y rheoliad hwn ei newid.

Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio data CYBLD i gyfrifo niferoedd ar gyfer cyfrannau cychwynnol o'r gyllideb os byddant yn dymuno, ond bydd yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol gyfrifo gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael ac addasu lle bo angen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol sicrhau eglurder o ran pa ddata y byddant yn eu defnyddio i gyfrifo nifer y disgyblion er mwyn sicrhau tryloywder a rhagweladwyedd.

## Ffactorau amddifadedd i'w defnyddio mewn fformiwlâu

**Cwestiwn 3**
A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i'r ffactor amddifadedd yn fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol ystyried swm ar gyfer pob disgybl mewn perthynas â chymhwystra disgybl ar gyfer prydau ysgol am ddim?

| Cytuno | 28 | Anghytuno | 6 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn.

Cafwyd cefnogaeth eang gan yr ymatebwyr o blaid cadernid cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim fel dangosydd dibynadwy, hygyrch a chyfredol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Hefyd nododd rhai dystiolaeth gref o amddifadedd economaidd-gymdeithasol a deilliannau addysgol is a manteision economaidd ehangach cynyddu cyllid amddifadedd mewn ysgolion.

Nododd nifer o awdurdodau lleol fod hyn yn adlewyrchu arferion presennol gan eu bod eisoes yn defnyddio data ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ddyrannu cyllid amddifadedd o fewn eu fformiwlâu.

Mynegodd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, y dylai gael ei ddefnyddio ar y cyd â mesurau eraill er mwyn adlewyrchu amddifadedd ehangach yn well.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ni wnaeth tri ohonynt roi rheswm, roedd un yn cytuno â defnyddio cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim ond nododd y dylai ffactorau amddifadedd eraill gael eu hystyried hefyd. Mynegodd un bryderon ynghylch goblygiadau cyllido posibl i ysgolion â llai o ddisgyblion difreintiedig, gan nodi bod y Grant Datblygu Disgyblion eisoes yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer amddifadedd. Gwnaeth dau ymatebydd gwestiynu pa mor ddibynadwy yw data ar gymhwystra i gael prydau ysgol am ddim oherwydd effaith y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd a chyfraddau cofrestru. Ategwyd y pryder hwn gan rai a oedd o blaid y cynnig hefyd.

Cynigiodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar y ganran o'r fformiwla ddylai gael ei dyrannu i gyllid amddifadedd, a chynigiodd ymatebydd arall na ddylai Llywodraeth Cymru bennu swm gan y byddai hynny'n dibynnu ar y gyllideb gyffredinol a byddai risg y byddai'n dylanwadu ar fformiwlâu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i'r ffactor amddifadedd yn fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol ystyried swm ar gyfer pob disgybl mewn perthynas â chymhwystra disgybl ar gyfer prydau ysgol am ddim, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau mewn perthynas â'r set ddata, ond mae'n ddangosydd allweddol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol o hyd ac yn darparu data clir ac wedi'u dilysu. Mae gan Lywodraeth Cymru waith parhaus i wella'r broses o gasglu data ar anfantais economaidd-gymdeithasol a'u dibynadwyedd; a nodi'r dangosyddion economaidd-gymdeithasol mwyaf priodol i ysgolion a dysgwyr.

Mae'r diwygiad arfaethedig yn darparu y gall awdurdodau lleol ddefnyddio setiau data cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim a/neu Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru naill ai'n unigol, ar y cyd â'i gilydd, neu ochr yn ochr â dangosyddion perthnasol eraill. Fodd bynnag, bydd y newidiadau rheoliadol yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un o'r setiau hyn gael ei hymgorffori i ryw raddau o fewn elfen amddifadedd y fformiwla gyllido er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn ffordd gyson.

**Cwestiwn 4**
A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i'r ffactor amddifadedd yn fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol ystyried swm ar gyfer pob disgybl mewn perthynas â phreswyliaeth disgybl mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru?

| Cytuno | 19 | Anghytuno | 11 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Thema allweddol ymhlith ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig oedd cydnabod bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cynrychioli tlodi mewn ffordd fwy cynhwysfawr, yn enwedig pan gaiff ei ddefnyddio ar y cyd â dangosyddion fel cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn cyfrannu at adlewyrchiad mwy cywir o'r heriau economaidd-gymdeithasol a wynebir gan ddisgyblion a'u cymunedau, a thrwy hynny sicrhau bod cyllid yn cyd-fynd yn well ag angen gwirioneddol.

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol eu bod eisoes yn ymgorffori data MALIC yn eu fformiwlâu cyllido, a nododd eraill fod cynlluniau ganddynt i wneud hynny yn y dyfodol agos.

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, tynnodd ymatebwyr sylw at y dystiolaeth gref sy'n cysylltu amddifadedd economaidd-gymdeithasol â deilliannau addysgol is, gan gyfeirio hefyd at fanteision economaidd ehangach rhoi mwy o gyllid i ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig.

Ymhlith y rhai nad oeddent o blaid y cynnig, roedd y prif bryderon yn ymwneud â chymhwyso data MALIC yn ymarferol o fewn fformiwlâu cyllido. Roedd materion penodol yn cynnwys anghysondeb rhwng codau post ysgolion a dalgylchoedd disgyblion, yn enwedig i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd, lle nad yw lleoliad yr ysgol o bosibl yn adlewyrchu proffil economaidd-gymdeithasol ei phoblogaeth disgyblion yn gywir. Mynegodd un ymatebydd bryder ynglŷn â digonolrwydd data MALIC o ran cofnodi amddifadedd gwledig. Ni wnaeth pedwar ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig roi unrhyw resymeg dros eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth gyffredinol a'r gydnabyddiaeth o'r manteision sy'n gysylltiedig â'i gwneud yn ofynnol i'r ffactor amddifadedd yn fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol ystyried swm ar gyfer pob disgybl mewn perthynas â phreswyliaeth disgybl mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau mewn perthynas â'r set ddata, ond mae'n ddangosydd allweddol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol o hyd ac yn darparu data clir ac wedi'u dilysu. Mae gan Lywodraeth Cymru waith parhaus i wella'r broses o gasglu data ar anfantais economaidd-gymdeithasol a'u dibynadwyedd; a nodi'r dangosyddion mwyaf priodol i ysgolion a dysgwyr.

Mae'r diwygiad arfaethedig yn darparu y gall awdurdodau lleol ddefnyddio setiau data cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim a/neu MALIC naill ai'n unigol, ar y cyd â'i gilydd, neu ochr yn ochr â dangosyddion perthnasol eraill. Fodd bynnag, bydd y newidiadau rheoliadol yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un o'r setiau hyn gael ei hymgorffori i ryw raddau o fewn elfen amddifadedd y fformiwla gyllido er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn ffordd gyson.

## Balansau ysgolion

**Cwestiwn 5**
A ydych yn cytuno â'r cynigion i ddiwygio'r gwerthoedd rhifol presennol ar gyfer gwarged lle gall awdurdod gyfarwyddo corff llywodraethu mewn perthynas â gwarged i 5% o gyllideb yr ysgol ar gyfer pob ysgol?

| Cytuno | 28 | Anghytuno | 6 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Mynegodd y mwyafrif o'r randdeiliaid gefnogaeth o blaid defnyddio dull yn seiliedig ar ganran o ymdrin â lefelau gwarged, gan nodi ei fod yn cynnig adlewyrchiad tecach o faint yr ysgol ac amrywiadau cyllidebol. Roedd llawer yn cytuno bod cymhwyso canran yn cynnig gwell tegwch ar draws y sector, gan sicrhau bod trothwyon ar gyfer gwargedion yn gymesur ac nad ydynt yn dangos tuedd tuag at ysgolion mwy neu ysgolion llai.

Er bod un yn teimlo y gall y trothwy arfaethedig o 5% fod yn rhy isel, cydnabu eraill ei fod yn gweithredu fel pwynt sbarduno yn bennaf yn hytrach na chap llym. Cydnabuwyd yn eang fod angen hyblygrwydd, yn enwedig mewn achosion lle gall fod angen i ysgolion gadw gwargedion uwch oherwydd amgylchiadau penodol, fel buddsoddiadau cynlluniedig neu bwysau cyllidebol yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at sefyllfa ysgolion ffydd, y mae'n ofynnol iddynt gyfrannu'n fwy sylweddol at brosiectau cyfalaf.

Awgrymodd dau randdeiliad y dylid cadw ffigur ariannol sefydlog, naill ai ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â'r ganran. Nododd un arall fod ffigurau sefydlog yn dyddio'n gyflym iawn oherwydd chwyddiant.

Gwnaeth un ymatebydd ymholiad ynglŷn â phryd y caiff y balans ei gyfrifo, gan nodi ei farn na ddylai gynnwys cyllidebau cronnol. Cafwyd safbwyntiau cymysg hefyd rhwng yr angen i ailfuddsoddi arian dros ben er mwyn cefnogi dysgwyr presennol ac ystyried prosesau rheoli ariannol da ysgolion sy'n cronni gwargedion dros amser.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig i ddiwygio'r gwerthoedd rhifol presennol ar gyfer gwarged lle gall awdurdod gyfarwyddo corff llywodraethu mewn perthynas â gwarged i 5% o gyllideb yr ysgol ar gyfer pob ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn nodi pryd y dylai'r balans gael ei gyfrifo.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn os bydd gan ysgol gynllun i gadw arian sydd uwchlaw'r terfyn ar gyfer gwargedion, dylid caniatáu iddi wneud hynny, ond rhaid i gynlluniau o'r fath fod yn dda a mynd drwy broses graffu. Rhaid i'r ysgol ddarparu tystiolaeth i ddangos bod arian wedi cael ei roi o'r neilltu at ddiben penodol, y caiff ei wario o fewn amserlen ddiffiniedig â cham terfynol penodedig; a rhaid i'r cynllun fod wedi cael ei gymeradwyo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

**Cwestiwn 6**
A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys datganiad yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro defnydd y corff llywodraethu o falansau gwarged?

| Cytuno | 27 | Anghytuno | 4 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Nododd llawer o awdurdodau lleol eu bod eisoes yn gwneud gwaith monitro o'r fath a'u bod yn croesawu'r cynnig i gynnwys datganiad ffurfiol fel ffordd o gryfhau tryloywder ac atebolrwydd trefniadau llywodraethu ariannol.

Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai gwaith monitro gefnogi ysgolion yn hytrach na'u cosbi, gan annog deialog agored ac adeiladol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Cydnabuwyd yn eang fod prosesau goruchwylio clir yn hyrwyddo atebolrwydd ac yn meithrin dealltwriaeth a rennir o ddisgwyliadau ariannol.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â rhesymeg ysgolion dros gael balansau gwarged sylweddol, gyda rhai'n cwestiynu a oedd camau digonol i fuddsoddi mewn disgyblion. Ystyriwyd bod y cynnig yn ffordd o sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau addysgol.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif yn teimlo na ddylid craffu'n ormodol ar ysgolion sydd â balansau gwarged er mwyn cael rheolaeth ariannol iach. Gwnaethant awgrymu, yn hytrach, y dylid rhoi sylw i ysgolion sydd â diffygion sylweddol. Yn ogystal, gofynnodd rhai ymatebwyr gwestiynau am y broses ar gyfer adhawlio gwargedion a sut y byddai hyn yn cael ei reoli yn ymarferol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys datganiad yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro defnydd y corff llywodraethu o falansau gwarged, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Y bwriad yw y bydd y cynigion yn sicrhau prosesau atebolrwydd clir.

**Cwestiwn 7**
A ydych yn cytuno y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyflwyno cynllun adennill diffyg i'w hawdurdod lleol er mwyn ei gymeradwyo?

| Cytuno | 28 | Anghytuno | 4 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyflwyno cynllun adennill diffyg i'w gymeradwyo. Nododd llawer fod hyn eisoes yn digwydd mewn sawl awdurdod lleol, gan nodi cysondeb bras ag ymarfer gweithredol cyfredol. Dywedodd ymatebwyr y byddai cynnwys gofyniad o'r fath yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol ac yn sicrhau y cymerir camau i ymyrryd yn gynnar pan fydd ysgolion yn wynebu heriau ariannol.

Pwysleisiodd ymatebwyr er bod cynlluniau adennill yn hanfodol, rhaid iddynt gael eu datblygu ar y cyd ac ystyried y pwysau a'r amgylchiadau penodol a wynebir gan ysgolion unigol.

Mynegwyd pryder ynglŷn ag effeithiolrwydd cynlluniau presennol, yn enwedig pan fydd gan ysgolion ddiffygion sylweddol, a'r angen i gryfhau mesurau atebolrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth ariannol gyfrifol.

Awgrymodd rhai y dylai'r ddarpariaeth fod mewn dogfen annibynnol, ar wahân yn hytrach na'i chynnwys yn y cynllun ariannol, er mwyn gallu ei diweddaru a'i diwygio'n haws.

Hefyd nododd ymatebwyr fod angen lleihau baich gweinyddol ychwanegol a gofynnwyd am ganllawiau clir ar y broses i'w dilyn mewn achosion pan na chydymffurfir â chynlluniau. Cafwyd cefnogaeth eang o blaid cyflwyno templed safonedig ar gyfer cynlluniau adennill diffyg fel ffordd o hyrwyddo cysondeb ac eglurder ar draws awdurdodau lleol.

O blith y pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno, ni chafwyd unrhyw resymau gan ddau ohonynt, dywedodd un ei fod eisoes yn digwydd a mynegodd un bryderon ynglŷn â gwaith gweinyddol ychwanegol i ysgolion heb gyllid cysylltiedig am ei wneud.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyflwyno cynllun adennill diffyg i'w hawdurdod lleol er mwyn ei gymeradwyo, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried datblygu templed safonol ar gyfer cynlluniau adennill diffyg.

**Cwestiwn 8**
A ydych yn cytuno y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys ffurf, proses, personau cysylltiedig ac amserlenni cynlluniau adennill diffyg?

| Cytuno | 24 | Anghytuno | 7 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd llawer yn croesawu'r broses gan nodi ei bod yn hanfodol er mwyn hyrwyddo tryloywder, dealltwriaeth gyffredin, a chysondeb o ran prosesau cynllunio ariannol ym mhob ysgol. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd dull gweithredu cyson er mwyn sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn cael ei thrin yn deg, gyda phrosesau monitro a chymorth effeithiol i ysgolion.

Roedd cefnogaeth o blaid cynnwys canllawiau sy'n egluro nifer o feysydd gan gynnwys canlyniadau diffyg cydymffurfio, cyfyngiadau ar recriwtio a'r lefelau diffygion uchaf a ganiateir. Awgrymodd rhai y dylai'r ddarpariaeth fod mewn dogfen annibynnol, ar wahân yn hytrach na'i chynnwys yn y cynllun ariannol, er mwyn gallu ei diweddaru a'i diwygio'n haws.

Hefyd nododd ymatebwyr y dylai rolau gael eu disgrifio'n gyffredinol yn hytrach nag enwi unigolion penodol, er mwyn cynnal hyblygrwydd a pherthnasedd dros amser.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai gofynion rhy rhagnodol danseilio ymreolaeth cyrff llywodraethu i wneud penderfyniadau ac ychwanegu baich gweinyddol. Fodd bynnag, nododd eraill y dylai'r cynnig arwain at lai o waith gweinyddol a biwrocratiaeth i ysgolion.

Er mwyn cefnogi camau i roi hyn ar waith, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried caniatáu i awdurdodau lleol gymryd cyfran o gyllidebau er mwyn ariannu'r capasiti gweinyddol ychwanegol sydd ei angen i reoli prosesau adennill diffygion yn effeithiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys ffurf, proses, personau cysylltiedig ac amserlenni cynlluniau adennill diffyg, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Bydd y rheoliadau yn cyfeirio at y cyfeiriad lle y dylid anfon cynllun adennill diffyg, yn hytrach nag enwi unigolion penodol.

## Dirprwyo

**Cwestiwn 9**
A ydych yn cytuno y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys rhestr o ddisgrifiadau neu feini prawf gwariant (o Gyllideb Ysgolion yr awdurdod lleol) na chânt eu dirprwyo i ysgolion ond a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol i'w gwario ar ysgolion?

| Cytuno | 29 | Anghytuno | 5 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ac un thema allweddol oedd ei botensial i wella tryloywder, cysondeb a chymharedd ar draws awdurdodau lleol. Roedd llawer yn teimlo y byddai cynnwys rhestr glir o wariant a gedwir yn ganolog yn cefnogi gwell dealltwriaeth ymhlith ysgolion a rhanddeiliaid, ac yn hwyluso camau i feincnodi arferion ledled Cymru.

Gofynnwyd am ganllawiau clir a chyson i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau, gan gynnwys categorïau neu fathau diffiniedig o wariant i'w rhestru, er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rennir ac osgoi amwysedd wrth weithredu.

Nododd sawl awdurdod lleol y byddai rhestr o'r fath yn ddefnyddiol wrth gymharu dulliau gweithredu ac arferion ar draws rhanbarthau ac y byddai'n cyfrannu at eglurder ariannol gwell. Roedd barn gyffredinol fod y cynnig yn gam sylweddol ymlaen i wella tryloywder a galluogi ysgolion i ddeall y trefniadau ariannol sy'n effeithio arnynt yn well.

Fodd bynnag, mynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr bryderon. Roedd un yn teimlo y gallai'r cynnig fod yn rhy fanwl i'w gynnwys mewn cynllun ariannol sydd angen cymeradwyaeth ddemocrataidd. Roedd un arall yn dadlau dros ddirprwyo cyllid i ysgolion yn llawn, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau annibynnol ynglŷn â phrynu gwasanaethau gan yr awdurdod lleol. Roedd galw hefyd am ddull gweithredu cyson ar lefel genedlaethol, gyda diffiniadau clir o ran yr hyn y dylid ac na ddylid ei ddirprwyo ledled Cymru.

Yn gyffredinol, er bod cefnogaeth gref o blaid y cynnig, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cael canllawiau clir, cysondeb a dull gweithredu cytbwys sy'n parchu tryloywder ac ymreolaeth leol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylai cynlluniau ariannol awdurdodau lleol gynnwys rhestr o ddisgrifiadau neu feini prawf gwariant (o Gyllideb Ysgolion yr awdurdod lleol) na chânt eu dirprwyo i ysgolion ond a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol i'w gwario ar ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

## Cyhoeddi

**Cwestiwn 10**
A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ariannol awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi ar eu gwefan, ac i gopi electronig gael ei ddarparu i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddynt?

| Cytuno | 29 | Anghytuno | 2 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gan gydnabod ei botensial i gryfhau tryloywder, cymharedd a thegwch ar draws y system addysg. Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod eisoes yn cyhoeddi eu cynlluniau ond dywedodd rhai nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt bob amser.

Dywedodd ymatebwyr y byddai'r fath dryloywder yn helpu ysgolion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac yn meithrin mwy o ymddiriedaeth mewn prosesau ariannol. Awgrymwyd y byddai'r dull gweithredu hwn yn cynnig ffordd syml ac effeithiol o sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn hygyrch i bob rhanddeiliad.

Dywedodd un awdurdod lleol a oedd yn anghytuno â'r cynnig ei fod yn cefnogi'r syniad o gyhoeddi cynlluniau ariannol ond yn anghytuno â'r angen i'w dosbarthu drwy e-bost uniongyrchol, gan awgrymu, yn hytrach, y byddai dolen i'r wybodaeth yn ddigonol. Roedd un ymatebydd arall yn anghytuno â'r cynnig ond ni roddodd unrhyw reswm.

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai templed safonol i'w gwneud yn haws cymharu ar draws awdurdodau lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y newidiadau arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ariannol awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi ar eu gwefan, ac i gopi electronig gael ei ddarparu i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddynt, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried datblygu templed safonol ar gyfer cynlluniau ariannol.

**Cwestiwn 11**
A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i fformiwlâu cyllido ysgolion awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi ar eu gwefan?

| Cytuno | 29 | Anghytuno | 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y gofyniad arfaethedig i awdurdodau lleol gyhoeddi eu fformiwlâu cyllido ysgolion ar eu gwefannau. Croesawyd y newid hwn yn eang fel cam tuag at wella tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer addysg. Nododd ymatebwyr y byddai mynediad cyhoeddus at yr wybodaeth hon yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, cyrff llywodraethu a'r gymuned ehangach. Nodwyd y byddai cael mynediad at yr wybodaeth yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall ysgogwyr a dadlau dros gydraddoldeb.

Roedd tri ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig, ni chafwyd rhesymau gan ddau ohonynt ac roedd un yn teimlo bod yr wybodaeth yn rhy gymhleth. Pwysleisiodd sawl ymatebydd fod yn rhaid i'r fformiwlâu a gaiff eu cyhoeddi fod yn hygyrch a chael eu cyflwyno mewn fformat dealladwy. Awgrymwyd nodiadau esboniadol neu ganllawiau er mwyn helpu i'w dehongli. Argymhellwyd hyfforddiant a chymorth hefyd er mwyn sicrhau y gall rhanddeiliaid ymgysylltu'n ystyrlon â'r wybodaeth.

Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod eisoes yn cyhoeddi eu fformiwla gyllido, a nododd eraill y byddai cyhoeddi'r fformiwlâu hefyd yn hwyluso prosesau meincnodi a chymharu ar draws rhanbarthau. Mynegodd nifer o randdeiliaid fod angen cysondeb a chroesawyd templed arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer datganiadau cyllideb fel ffordd o sicrhau hyn.

Galwyd ar Lywodraeth Cymru i chwarae rôl fwy gweithredol o ran monitro a sicrhau ansawdd y fformiwlâu a gyhoeddir, gan sicrhau cysondeb a dwyn awdurdodau lleol i gyfrif.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y newidiadau arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i fformiwlâu cyllido ysgolion awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi ar eu gwefan, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried sut y gall yr wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi fod yn hygyrch ac yn ddealladwy ac yn cynnwys argymhellion yn y canllawiau.

## Rheoliadau Cyllido Ysgolion - Atodlenni

**Cwestiwn 12**
A ydych yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig i Atodlen 1 i Reoliadau 2010 (y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau ar gyfer y Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion, neu'r Gyllideb Awdurdod Lleol gynt) i gynnwys ardrethi annomestig?

| Cytuno | 21 | Anghytuno | 4 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig i'r Rheoliadau er mwyn cynnwys ardrethi annomestig yn y Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion. Croesawyd y newid hwn yn gyffredinol fel addasiad ymarferol a rhesymegol sy'n adlewyrchu realiti rheolaeth ariannol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

Nododd llawer o ymatebwyr fod ardrethi annomestig y tu hwnt i reolaeth ysgolion unigol ac y gall eu dirprwyo wyrdroi cyllidebau ysgolion. Nodwyd bod y dull gweithredu presennol, lle caiff ardrethi annomestig eu dirprwyo ond i'r un swm gael ei adennill, yn fiwrocrataidd heb fod angen. Ystyriwyd bod y diwygiad arfaethedig yn ffordd o symleiddio'r broses, lleihau baich gweinyddol a gwella eglurder dyraniadau cyllideb.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno, nododd un fod ardrethi annomestig yn un o gostau clir rhedeg ysgol ac y dylid eu cofnodi felly. Roedd un yn teimlo bod symud ardrethi annomestig o'r Gyllideb Ysgolion i'r Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion yn mynd yn groes i egwyddorion cyfrifyddu. Roedd dau ymatebydd arall yn anghytuno ond ni wnaethant roi rheswm.

Ar y cyfan, nodwyd bod y cynnig yn gam cadarnhaol tuag at leihau gwaith gweinyddol a biwrocratiaeth ddiangen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y diwygiad arfaethedig i Atodlen 1 i Reoliadau 2010 (y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau ar gyfer y Gyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion, neu'r Gyllideb Awdurdod Lleol gynt) i gynnwys ardrethi annomestig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

**Cwestiwn 13**
A oes unrhyw beth y dylid ei ychwanegu at Atodlen 1 i Reoliadau 2010 neu ei ddileu o'r Atodlen yn eich barn chi?

**Dadansoddiad cryno:**
Er na fynegwyd barn gref, argymhellwyd ambell eitem gyllidebol ond heb resymeg ategol. Cynigiodd sawl ymatebydd awgrymiadau mewn perthynas â dirprwyo cyllidebau a'r ffordd yr ymdrinnir â chyfrifoldebau ariannol penodol. Un cynnig oedd y dylid dirprwyo cyllidebau cyfan i ysgolion, ac mai dim ond beth mae angen iddynt ei ddefnyddio neu beth maent yn dewis ei ddefnyddio y dylai ysgolion ei ad-dalu. Nododd un ymatebydd na chaiff llog banciau a enillir ar gyllidebau ysgolion ei drosglwyddo i ysgolion lle na chaiff cyllidebau eu dirprwyo. Nododd ymatebydd arall mai dim ond gwariant yn y gyllideb y mae gan ysgolion ddylanwad drosto neu ddewis yn ei gylch ddylai gael ei ddirprwyo.

Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cydnabod cyfrifoldebau statudol ysgolion ac awdurdodau lleol wrth bennu dyraniadau cyllideb. Cafwyd ceisiadau am restr ddiffiniedig yn amlinellu beth y dylai ac na ddylai gael ei gynnwys mewn cyllidebau dirprwyedig, er mwyn cefnogi cysondeb a thryloywder ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau y caiff trefniadau cyllido eu dehongli a'u cymhwyso'n gyson, galwodd ymatebwyr am ganllawiau clir a chynhwysfawr. Byddai canllawiau o'r fath yn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso polisïau'n gyson.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion mewn canllawiau er mwyn sicrhau y caiff Rheoliadau arfaethedig 2026 eu dehongli'n gyson.

**Cwestiwn 14**
A ydych yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig i Atodlen 2 i Reoliadau 2010 i ddileu'r terfyn o 0.2% ar gyfer ffioedd trwyddedau neu danysgrifiadau?

| Cytuno | 22 | Anghytuno | 2 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gan nodi bod dileu'r terfyn yn cefnogi mwy o hyblygrwydd o ran rheolaeth ariannol ac yn lleihau'r angen am drefniadau prynu'n ôl. Croesawyd y newid ar yr amod y caiff ei roi ar waith mewn ffordd dryloyw, ac y caiff cyllidebau canolog eu cyhoeddi'n glir.

Ni ddarparwyd rhesymau gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y diwygiad arfaethedig i Atodlen 2 i Reoliadau 2010 i ddileu'r terfyn o 0.2% ar gyfer ffioedd trwyddedau neu danysgrifiadau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

**Cwestiwn 15**
A oes unrhyw beth y dylid ei ychwanegu at Atodlen 2 i Reoliadau 2010 neu ei ddileu o'r Atodlen yn eich barn chi?

**Dadansoddiad cryno:**
Cynigiwyd y dylid cynnwys nifer o benawdau gwariant unigol yn y gyllideb, ond ni chafwyd consensws mewn perthynas ag unrhyw eitem benodol. Cynigiwyd rhai eitemau er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gadw cyllid a darparu gwasanaethau'n ganolog. Fodd bynnag, cynigiodd eraill y dylid dirprwyo'r holl wariant i ysgolion er mwyn iddynt benderfynu sut maent yn dymuno caffael neu ddarparu'r gwasanaethau. Roedd rhai cynigion y tu hwnt i gylch gwaith y Rheoliadau hyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Ni chynigir camau gweithredu pellach.

## Cwestiwn 16

A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Atodlen 3 i Reoliadau 2010, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori?

| Cytuno | 15 | Anghytuno | 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gan nodi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnwys unrhyw ffactor neu faen prawf sy'n briodol ar gyfer gwariant yn eu barn nhw o dan ddiffiniad y Gyllideb Ysgolion yn eu fformiwla gyllido. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ganllawiau i gefnogi eglurder i awdurdodau lleol ymhellach a sicrhau y defnyddir dull gweithredu cyson.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno â chadw paragraff 25, oherwydd pwysau cyllidebol. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliad hwn yn cymell awdurdod lleol i ddyrannu

cyllid, dim ond pan fydd yn gwneud hynny, y caiff ei wneud mewn ffordd dryloyw a theg yn ei holl ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y diwygiadau arfaethedig i Atodlen 3 i Reoliadau 2010, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

## Datganiadau cyllideb

**Cwestiwn 17**
A ydych yn cytuno â'n diwygiadau arfaethedig i Ran 1, fel y'u nodir yn Atodiad A?

| Cytuno | 15 | Anghytuno | 3 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd y mwyafrif o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig. Croesawodd ymatebwyr y templed gan nodi ei fod yn cefnogi cysondeb, tryloywder a chymharedd.

Roedd nifer o sylwadau ar gynnwys cyllidebau dangosol blwyddyn 2 a 3, yn seiliedig ar yr angen i sicrhau y nodir yn glir mai dangosol yn unig yw'r rhain. Dywedodd un ymatebydd fod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllidebau tymor hwy. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu canllawiau i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyfrifo cyllidebau dangosol mewn ffordd gyson.

Gofynnwyd am ganllawiau pellach hefyd i sicrhau bod categorïau o Ddirprwyadau Craidd, Dewisol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn glir ac yn cael eu cymhwyso'n gyson.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y diwygiadau arfaethedig i Ran 1, fel y'u nodir yn Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

**Cwestiwn 18**
Rydym wedi cynnwys nodiadau diwygiedig arfaethedig i gyd-fynd â Rhan 1 yn Atodiad A. A ydych yn cytuno â'r nodiadau arfaethedig ar gyfer Rhan 1?

| Cytuno | 17 | Anghytuno | 1 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Consensws yr ymatebion oedd bod y nodiadau yn glir, yn rhesymegol ac yn hawdd eu dilyn. Dywedodd llawer y bydd y nodiadau yn cefnogi gwell cysondeb, cymharedd a thryloywder.

Nodwyd y bydd nodiadau clir yn lleihau amser gweinyddol a dealltwriaeth o broses weinyddu'r datganiad cyllideb, yn enwedig pan fydd newidiadau staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y nodiadau diwygiedig arfaethedig i gyd-fynd â Rhan 1 yn Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

**Cwestiwn 19**
A ydych yn cytuno â'r diwygiadau i Ran 2 a Rhan 3, fel y'u nodir yn Atodiad B?

| Cytuno | 14 | Anghytuno | 2 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 17 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd cytundeb cryf ymhlith yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd ymatebwyr o blaid y newid i broses adrodd gyson ar draws awdurdodau lleol, gan gydnabod ei gwerth o ran galluogi cymariaethau, gwella tryloywder, a chryfhau goruchwyliaeth ariannol.

Nodwyd bod cynnwys cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn ddefnyddiol, yn enwedig o ystyried bod rhai elfennau o'r fformiwla yn ymwneud â chyllid y tu hwnt i'r Uned Disgyblion wedi'i Phwysoli yn ôl Oedran.

Gwnaed rhai awgrymiadau pellach gan gynnwys cyfuno categorïau penodol i'r safle a phenodol i'r ysgol, a darparu system awtomataidd i gwblhau'r gofynion adrodd.

Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod eisoes yn darparu'r wybodaeth ac felly byddai'n hawdd cwblhau'r gofyniad hwn; ond mynegodd un awdurdod bryderon ynglŷn â'r cynnydd posibl mewn llwyth gwaith.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y diwygiadau arfaethedig i Ran 2 a Rhan 3, fel y'u nodir yn Atodiad B i'r ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Yn ogystal, bydd Rhannau 2 a 3 bellach yn cael eu cyfuno er mwyn symleiddio'r broses ymhellach. Mae llinellau penodol i'r safle a phenodol i'r ysgol wedi cael eu cyfuno. Bydd cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynnwys dau gategori ar wahân; Dirprwyad ADY Dewisol a Dirprwyad ADY Craidd, er mwyn darparu mwy o eglurder a thryloywder.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu templed i awdurdodau lleol ei ddefnyddio gyda'r nod o symleiddio'r broses a lleihau gwaith gweinyddol.

**Cwestiwn 20**
Rydym wedi cynnwys nodiadau diwygiedig arfaethedig i gyd-fynd â Rhan 2 a Rhan 3 yn Atodiad B. A ydych yn cytuno â'r nodiadau arfaethedig ar gyfer Rhan 2 a Rhan 3?

| Cytuno | 16 | Anghytuno | 2 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Consensws yr ymatebion oedd bod y nodiadau yn glir, yn rhesymegol ac yn hawdd eu dilyn. Dywedodd llawer y bydd y nodiadau yn cefnogi gwell cysondeb, cymharedd a thryloywder.

Nodwyd y bydd nodiadau clir yn lleihau amser gweinyddol a dealltwriaeth o broses weinyddu'r datganiad cyllideb, yn enwedig pan fydd newidiadau staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y nodiadau diwygiedig arfaethedig i gyd-fynd â Rhan 2 a Rhan 3 yn Atodiad B i'r ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 3.

Gwneir diwygiadau pellach i'r nodiadau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a amlinellwyd yng nghwestiwn 19.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i gefnogi camau i roi hyn ar waith.

**Cwestiwn 21**
A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau alldro i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddiwygio i 31 Gorffennaf?

| Cytuno | 26 | Anghytuno | 2 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 |
|---|---|---|---|---|---|

**Dadansoddiad cryno:**
Roedd cytundeb cryf ymhlith ymatebwyr, gan nodi bod y diwygiad yn cyd-fynd ag arferion presennol ac yn gyson â ffurflenni Alldro Refeniw. Nodwyd bod y dyddiad diwygiedig arfaethedig yn cefnogi prosesau adrodd ar ddata mwy cydgysylltiedig ac yn darparu data mewn da bryd er mwyn galluogi gwaith cynllunio ariannol gwell.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, awgrymodd un y dylid cynnig dyddiad cynharach ac awgrymodd un y dylai fod cyfnod penodedig rhwng derbyn y gyllideb a darparu datganiadau ariannol, ac y dylai dyddiadau osgoi diwedd y tymor neu wyliau'r ysgol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
O ystyried y gefnogaeth o blaid y newidiadau arfaethedig bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau alldro i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddiwygio i 31 Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau arfaethedig 2026.

Mae'r diwygiad hwn yn adlewyrchu arferion presennol.

## Effeithiau

**Cwestiwn 22**
A oes gennych unrhyw farn ar effeithiau posibl ein cynigion ar hawliau dynol a'r 9 nodwedd warchodedig, fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

**Dadansoddiad cryno:**
Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y cyllid presennol ar gyfer ADY, cyllid amddifadedd a chyllid ar gyfer ysgolion ffydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd yn eang y bydd y diwygiadau arfaethedig a nodir yn y cynigion yn darparu gwybodaeth fwy cyson, cymaradwy a thryloyw, sy'n golygu y bydd yn haws nodi a herio unrhyw anghydraddoldeb.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Asesiadau Effaith priodol i sicrhau y caiff effeithiau'r cynigion eu nodi, eu hystyried a'u lliniaru. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau arfaethedig, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru pan fydd wedi'i gwblhau.

**Cwestiwn 23**
A oes unrhyw gostau, buddion neu risgiau eraill yn gysylltiedig â'r cynigion?

**Dadansoddiad cryno:**
Nododd ymatebwyr sawl budd sy'n gysylltiedig â'r cynigion, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth ariannol fwy tryloyw, cyson a chymaradwy gan awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod y gwelliannau hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o drefniadau cyllido ac yn hyrwyddo dull tecach o ddyrannu adnoddau.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith weinyddol ar awdurdodau lleol, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant er mwyn rhoi gofynion newydd ar waith yn effeithiol. Nodwyd risgiau posibl ynglŷn â chostau cynyddol i awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas ag ail-lunio fformiwlâu cyllido, diweddaru cynlluniau a chynnal ymgyngoriadau.

Nododd rhai ymatebwyr y risg o amrywiadau yng nghyllideb ysgolion unigol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod gwaith gweinyddol ychwanegol i awdurdodau lleol lle caiff diwygiadau eu cyflwyno, gan gynnwys yr angen i ymgynghori ag ysgolion a rhanddeiliaid a diwygio dogfennau presennol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, rhagwelir y bydd yr amser gweinyddol yn lleihau.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol drwy Weithgor yr Adolygiad o Gyllido Ysgolion i brofi ffurflenni datganiadau cyllideb a llunio canllawiau cynhwysfawr a thempledi er mwyn cynorthwyo'r broses weithredu.

Cynigir y caiff y Rheoliadau eu gwneud ar ddechrau 2026, ond ni fyddant yn dod i rym tan 1 Ebrill 2027. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol gynnal ymgyngoriadau a gwneud diwygiadau angenrheidiol i'w prosesau a/neu eu polisïau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod rhai amrywiadau cychwynnol i gyllidebau ysgolion unigol, os bydd angen i awdurdodau lleol ddiwygio eu fformiwla gyllido neu os byddant yn dewis gwneud hynny.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi symiau na gwerthoedd i'w dyrannu; mater i awdurdodau lleol unigol yw hyn. Mae'n bosibl y gall amrywiadau fod o ganlyniad i gyfraddau cydymffurfio uwch â'r Rheoliadau lle bu achosion o gamddehongli yn y gorffennol o bosibl, a chamau i ddosbarthu cyllid yn decach.

## Y Gymraeg

**Cwestiwn 24**
Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 25**
Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r newidiadau arfaethedig er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Dadansoddiad cryno:**
Atebodd 24 o ymatebwyr gwestiwn 24 a 25. Roedd y mwyafrif yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach. Nodwyd y byddai angen sicrhau bod pob dogfen yn ddwyieithog.

Nododd un ymatebydd y byddai'r tryloywder gwell yn golygu y byddai modd monitro buddsoddiad yn y Gymraeg yn haws, a mynegodd un ymatebydd bryderon pe bai cynigion yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau lleol, gall effeithio ar y cyllid a ddyrennir i feysydd penodol fel darpariaeth Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn ategu ei hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg a bydd yn sicrhau bod yr holl brosesau rheoliadol yn cynnal egwyddor cydraddoldeb ieithyddol.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus.

Y bwriad yw gwneud Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 fel y'i cynigiwyd i raddau helaeth.

Yn ogystal, lle gwnaed sylwadau y mae angen ymdrin â nhw ond na fyddai'n golygu bod angen newid Rheoliadau arfaethedig 2026, ymdrinnir â nhw mewn canllawiau a gaiff eu cyhoeddi i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. O blith y rhain, gofynnodd 23 o ymatebwyr am gael aros yn ddienw. Y rhai a restrir yma yw'r bobl a'r sefydliadau a roddodd ganiatâd i gyhoeddi eu manylion.

Canolfan Addysg Y Bont
Mark Owen
ASCL
Cyngor Sir Powys
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
NAHT Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Yr Eglwys yng Nghymru
UCAC
Cyngor Caerdydd a Fforwm Cyllideb Ysgolion Cyngor Caerdydd (Ymateb ar y Cyd)
NEU Cymru
CCAC a CLILC (Ymateb ar y Cyd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
NASUWT Cymru
Cyngor Sir y Fflint